# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 16 Mehefin 2021

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Mrs S Hoss, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

[Cyrhaeddodd Dr R Heath-Davies adeg ystyried yr eitem ar y Dulliau o Gynnal Cyfarfodydd Pwyllgorau (*gweler Cofnod 6].*

(Cyfarfod Rhithiol: 10.25am – 11.40am; 11.50am - 1.00pm; 1.30pm – 1.55pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd S Yelland. Roedd Dr R Plummer wedi rhoi gwybod y byddai'n cyrraedd yn hwyr.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Dr R Plummer bod ganddi fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn eitem 25/21 Caffael Astudiaethau ar Waelodlin Carbon Tirweddau Dynodedig gan ei bod yn Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fai 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

O ran Cofnod 10 ynglŷn â'r Cynllun Datblygu Lleol 2 - Canllawiau Cynllunio Atodol, gofynnodd un Aelod am i'r ffaith gael ei nodi ei bod hi wedi cymeradwyo adroddiad Dr Simon Brooks yng Nghymru, oedd wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau, ac wedi gofyn am i weithdy ar y pwnc hwnnw gael ei drefnu yn y dyfodol.

Atebodd y Prif Weithredwr bod llawer o waith yn cael ei wneud ar y mater hwn ar hyn o bryd, oedd yn golygu bod y darlun yn dal i esblygu. Fodd bynnag, byddai gweithdy yn cael ei drefnu ar yr adeg briodol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fai 2021 yn amodol ar y newid uchod.

**3. Materion yn codi**

Cynllun Datblygu Lleol 2 - Canllawiau Cynllunio Atodol (Cofnod 10)

Nodwyd bod y dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol ar Archaeoleg a Bioamrywiaeth, oedd yn ddogfennau a luniwyd ar y cyd â Chyngor Sir Penfro (CSP), i'w hystyried gan Gabinet CSP yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod. Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch a oeddent wedi'u cymeradwyo neu beidio. Cytunodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc i roi gwybod i'r Aelodau am benderfyniad y Cabinet drwy neges e-bost.

**NODWYD.**

**4. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Siom i'r Cadeirydd oedd gorfod dweud ei fod yn dal heb fynychu unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus. Serch hynny, ei obaith oedd y byddai llacio'r cyfyngiadau yn newid y sefyllfa cyn hir. Dywedodd bod Julie James AoS wedi'i phenodi'n Weinidog Newid Hinsawdd, gyda chyfrifoldeb am y Parciau Cenedlaethol, a'i fod wedi ysgrifennu llythyr yn ei llongyfarch ar ei phenodiad a dweud ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda hi; roedd copi o'r llythyr wedi'i ddosbarthu ymhlith yr Aelodau. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o Adolygiadau Datblygiad Personol oedd wedi bod yn ddefnyddiol ac yn hwylus, a chymeradwyodd y broses i bob Aelod, a mynegi ei barodrwydd i fod o gymorth.

Yn dilyn y cyfarfod blaenorol o'r Awdurdod, pan benodwyd ef i gynrychioli'r Awdurdod ar Grŵp Cynghori Parth Cadwraeth Morol Skomer, roedd wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp hwnnw, a phleser oedd gweld yr ystod o waith a gyflawnir gan y Grŵp. Hefyd roedd wedi mynychu Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU fel Is-gadeirydd pan drafodwyd pynciau megis Carbon Sero-Net â Natur, COP26 a'r Datganiad Sefyllfa ar Newid Hinsawdd. Cynigiodd roi diweddariad i unrhyw Aelod oedd â diddordeb. Yn olaf, dywedodd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi cwrdd â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y diwrnod cynt, a bod gan yr Awdurdod berthynas dda â hwy.

**NODWYD.**

**5. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 ac ar 10 Mai 2021.
(ii) Y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2021.
(iii) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Mai 2021.

Dywedwyd bod Sarah Burns, Swyddog Diogelu Data yr Awdurdod, wedi rhoi cyflwyniad, a gofynnwyd am i'r sleidiau gael eu dosbarthu i'r Aelodau nad oedd yn aelodau o'r Pwyllgor hwnnw. Hefyd bod gweithdy i'r Aelodau yn cael ei drefnu ar faterion diogelu data.

**PENDERFYNWYD** nodi/mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

[Cyflwynodd y Cynghorydd A Wilcox ei ymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod adeg ystyried yr eitem ganlynol.]

**6. Dulliau o Gynnal Cyfarfodydd Pwyllgorau yn y Dyfodol**

Dywedwyd bod canllawiau statudol dros dro ar gynnal cyfarfodydd mewn sawl lleoliad wedi'u cyhoeddi yn ddiweddar, oedd yn cyfeirio ymhellach at adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Diffiniwyd cyfarfodydd aml-leoliad fel y rhai nad oedd eu cyfranogwyr i gyd yn yr un lle yn gorfforol. Dywedwyd bod rhaid i gyfarfodydd y Parc Cenedlaethol yn ystod 2021/22, yn unol â Deddf 2021, fod yn aml-leoliad ond nad oedd yn ofynnol i'r cyfarfodydd gael eu darlledu; fodd bynnag, erbyn Mai 2022 rhaid i gyfarfodydd fod yn aml-leoliad a chael eu darlledu.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyfleusterau sydd gan yr Awdurdod ar hyn o bryd ac i ba raddau y gallai'r cyfleusterau hynny fodloni'r gofynion hyn. Aeth yr adroddiad ymlaen i argymell y dylid cynnal cyfarfodydd yn yr Ystafell Werdd neu yn yr Ystafell Ddarganfod yn Oriel y Parc yn 2021/22 unwaith y bydd y cyfyngiadau wedi'u llacio'n llwyr, a'r Aelodau yn cael y dewis o fynychu'n bersonol neu drwy Gynhadledd Fideo.

O fis Mai 2022 byddai gofyn i'r Awdurdod ddarlledu a recordio cyfarfodydd. O ystyried y cyfyngiadau ar ansawdd y sain oherwydd adeiladwaith yr Ystafell Werdd yn Llanion a'r ystafell Ddarganfod yn Oriel y Parc, nodwyd opsiynau eraill i'r Aelodau eu hystyried.

Cafwyd trafodaeth helaeth ar yr opsiynau tymor hir, a mynegwyd barn o blaid ac yn erbyn dewis arall yn lle'r Ystafell Werdd, er nad oedd llawer o gefnogaeth i ailwampio'r swyddfa Gynllunio oherwydd y tarfu y byddai hynny yn ei achosi. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y cyfleusterau sydd ar gael yng Ngholeg Sir Benfro ac mewn mannau eraill yn y Sir, a chytunodd y swyddogion i wneud ymholiadau. Serch hynny, roedd ymchwiliadau blaenorol wedi awgrymu mai Neuadd y Sir oedd yr unig leoliad yn Sir Benfro sydd ag offer priodol. Awgrymwyd y gallai Cyngor Sir Penfro fod yn barod i drafod costau pe bai'r trefniadau yn rhai rheolaidd, a nodwyd bod 12 o'r 18 Aelod yn gallu parcio am ddim yn Neuadd y Sir. Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau o'r farn nad cynnal cyfarfodydd yn Neuadd y Sir oedd yr ateb priodol i'r sefyllfa.

Roedd consensws cyffredinol y dylid datblygu opsiynau ar gyfer ystafell uwchraddedig yn lle'r Ystafell Werdd, a chyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod yn y dyfodol. Awgrymwyd y byddai adroddiad ar Strategaeth Ystadau'r Awdurdod hefyd yn ddefnyddiol. Nodwyd y byddai'n anodd cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau ledled y Sir yn y dyfodol, oherwydd yr angen i ddarlledu a'r gofynion technegol ychwanegol y byddai hynny yn ei olygu. Mynegwyd y gobaith, er nad oedd yn ofynnol i'r Awdurdod ddarlledu cyfarfodydd tan 2022, y byddai hyn serch hynny yn parhau pan ddychwelir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

**PENDERFYNWYD** bod cyfarfodydd yn dychwelyd i'r Ystafell Werdd unwaith y bydd y cyfyngiadau wedi'u llacio, a'r Aelodau yn cael y dewis i fynychu drwy gynhadledd fideo. O ran yr opsiwn tymor hwy o fis Mai 2022 ymlaen, gofynnwyd i'r swyddogion ddatblygu opsiynau ar gyfer ystafell gyfarfod enghreifftiol yn lle'r Ystafell Werdd i'w cyflwyno gerbron cyfarfod yn y dyfodol.

[Cyflwynodd y Cynghorydd M Williams ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.40am a 11.50am.]

**7. Ymestyn y Newidiadau Dros Dro yn sgîl Effaith Covid 19 i Gynllun yr Awdurdod o Ddirprwyo**

Atgoffwyd yr Aelodau, er mwyn galluogi'r gwasanaeth cynllunio i barhau yn ystod y pandemig Covid-19, bod diwygiadau dros dro, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, wedi'u gwneud i Gynllun yr Awdurdod o Ddirprwyo. Cynigiwyd y diwygiadau dros dro yn wreiddiol fis Mai 2020, a'u hail-gadarnhau fis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2020; gofynnwyd yn awr am estyniad pellach tan y 30ain o Fawrth 2022.

Gofynnodd un Aelod am ail-ystyried y rhifo yn y ddogfen i gael rhifau cyfreithiol yn lle'r pwyntiau bwled, er mwyn cynorthwyo croesgyfeirio. Hefyd gofynnwyd am i'r geiriau "parhau i" gael eu hychwanegu at yr argymhelliad cyn "diwygio'r cynllun dros dro".

Gofynnodd Aelod arall am ddata ar effeithiolrwydd y cynllun dirprwyo diwygiedig, er ei fod yn hapus i gefnogi'r estyniad, gan nodi bod rhai ceisiadau oedd wedi ymddangos yn geisiadau syml, serch hynny wedi dod gerbron y Pwyllgor. Cytunodd y swyddog i grynhoi'r wybodaeth a'i dosbarthu i'r Aelodau. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, os oedd gan y Cyngor Cymuned a gwrthwynebwyr lleol farn gref yn groes i argymhelliad y swyddog, ei fod yn aml wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried y ceisiadau er budd democratiaeth.

**PENDERFYNWYD** parhau i ddiwygio'r cynllun dirprwyo dros dro o ran cynllunio tan y 30ain o Fawrth 2022.

**8. Adolygiad o'r Cynllun Cyfranogiad y Cyhoedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi cyflwyno siarad cyhoeddus yn ei Bwyllgorau Rheoli Datblygu yn 2002, gyda'r bwriad o ganiatáu siarad cyhoeddus mewn un cyfarfod yn unig ar bob cais. Roedd sawl ymholiad wedi codi ynglŷn â’r trefniadau cyfranogiad y cyhoedd yn ystod y misoedd diwethaf, a barnwyd ei bod yn amser i adolygu’r polisi cyfredol. Cynhaliwyd gweithdy ar 19 Mai 2021 gyda'r Aelodau i drafod y mater.

Roedd yr adroddiad yn cynnig newid y polisi cyfredol er mwyn caniatáu i unigolyn oedd wedi annerch y Pwyllgor ar gais penodol mewn cyfarfod blaenorol, annerch y Pwyllgor eto pe bai'r cais yn cael ei ohirio am ba reswm bynnag i gyfarfodydd dilynol, a hynny am uchafswm o 5 munud. Hefyd nodwyd newidiadau eraill i'r Canllawiau i Siaradwyr, megis egluro y gall mwy nag un person rannu'r 5 munud a ddyrannwyd ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

Nodwyd yn y cyfarfod bod yr adroddiad wedi argymell bod rhaid i unrhyw ddogfennau mewn perthynas â chais a ddosbarthwyd i'r Aelodau gael eu cyflwyno 48 awr cyn y cyfarfod. Fodd bynnag, ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, gofynnwyd am i'r pwynt hwn gael ei ddileu gan fod rhaid i unrhyw wybodaeth berthnasol gael ei hystyried waeth pryd y'i derbyniwyd.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad, yn amodol ar y gwelliant a nodwyd uchod a nifer o awgrymiadau i wneud y ddogfen Ganllaw yn fwy eglur, gan gynnwys geiriad i'w gwneud yn glir na chaniateir unrhyw siarad cyhoeddus mewn Arolygiadau Safle. Cynigiwyd gwelliant y dylid rhoi uchafswm o dri munud i unigolyn oedd yn annerch y Pwyllgor mewn cyfarfod dilynol, yn hytrach na phum munud, ac y dylid cyflwyno gwybodaeth newydd yn unig, yn hytrach nag ailadrodd pwyntiau a wnaed yn flaenorol. Hefyd awgrymwyd diwygiadau pellach i'r Canllawiau, ac oherwydd nifer y diwygiadau a gyflwynwyd, dywedodd y swyddogion y gallai fod yn well pe bai'r Canllawiau yn cael eu hadolygu i gynnwys y pwyntiau a wnaed yn y cyfarfod, a'u dwyn yn ôl i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w cymeradwyo.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu ei fod o’r farn bod angen newidiadau hefyd i'r protocol i'w ddilyn pan oedd yr Aelodau yn dymuno gwneud penderfyniad yn groes i gyngor / argymhelliad y swyddogion (“y weithdrefn ailfeddwl”) a gofynnodd am sefydlu gweithgor i drafod hyn. Cytunodd y swyddogion i drefnu cyfarfod gyda Chadeirydd / Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor er mwyn trafod y mater ymhellach, cyn i adroddiad gael ei gyflwyno i'r Aelodau i'w ystyried.

**PENDERFYNWYD**:

a) caniatáu i unigolyn oedd wedi annerch y Pwyllgor ar gais penodol mewn cyfarfod blaenorol annerch y Pwyllgor eto os gohiriwyd y cais am ba reswm bynnag i gyfarfodydd dilynol, am uchafswm o dri munud, cyn belled mai dim ond deunydd newydd oedd i gael ei gyflwyno;
b) ail-ddrafftio'r ddogfen ganllaw ar gyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, gan ystyried sylwadau'r Aelodau, a chyflwyno'r ddogfen i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**9. Caffael Astudiaethau ar Waelodlin Carbon Tirweddau Dynodedig.**

Dywedwyd bod yr Awdurdod ynghyd â'r saith Tirwedd Dynodedig arall yng Nghymru wedi cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion ar gyfer y cynllun Grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy a redir gan Lywodraeth Cymru. Roedd cyfanswm o £4.5 miliwn ar gael, a thrwy gytundeb ar draws yr wyth Tirwedd Dynodedig a Llywodraeth Cymru, roedd 10% o'r cyllid hwn wedi'i ddyrannu ar gyfer prosiectau cydweithredol.

Un o'r prosiectau a gyflwynodd yr Awdurdod ar gyfer elfen gydweithredol y gronfa oedd comisiynu Astudiaeth Gwaelodlin Carbon o'r wyth Tirwedd Dynodedig. Roedd hyn yn seiliedig ar drafodaethau gyda rhai o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Lloegr, oedd wedi comisiynu'r cwmni Small World Consulting i gynnal Archwiliad Carbon o'u Parciau Cenedlaethol ac argymhellion ar y camau i'w cymryd er mwyn creu tirweddau carbon niwtral erbyn 2040. Byddai'r adroddiadau hyn yn rhoi opsiynau o ran cynigion yn y dyfodol ar gyfer prosiectau Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy, a galluogi'r wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru i weithredu ar y cyd ar weithio tuag at y targed hwn. Yn ogystal, drwy ddefnyddio'r fethodoleg hon, byddai modd rhannu profiad ac arfer da gyda'r Parciau Cenedlaethol yn Lloegr. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm cost y gwaith hwn fyddai rhyw £60,000, a bwriad yr Awdurdod oedd contractio am y gwaith hwn ar ran yr wyth Tirwedd Dynodedig.

O dan Reoliadau Sefydlog Contractio 2020 yr Awdurdod, roedd gofyn gwahodd tri tendr ar gyfer contractau dros £25,000. Petai'r Awdurdod yn cyhoeddi gwahoddiad agored i dendro, roedd yn debygol y byddai unrhyw sefydliad neu gwmni arall yn cynnig methodoleg wahanol, a byddai hynny yn cael effaith ar allu'r Awdurdod i gydweithio, rhannu gwybodaeth a dysgu o brofiadau'r Parciau Cenedlaethol yn Lloegr.

Dewis arall fyddai i'r Awdurdod gomisiynu ei adroddiad ei hun ac yna gofyn i'r saith Tirwedd Dynodedig arall gomisiynu eu hadroddiad eu hunain. Fodd bynnag, byddai hynny yn cynyddu'r fiwrocratiaeth sy'n ymwneud â'r prosiect ac yn lleihau gallu'r Awdurdod i reoli'r prosiect.

O ystyried hyn, gofynnwyd i'r Aelodau atal y Rheolau Sefydlog Contractio 2020 mewn perthynas â chomisiynu Archwiliadau Carbon ar gyfer yr wyth Tirwedd Dynodedig.

Roedd mwyafrif yr Aelodau yn hapus i atal y Rheolau Sefydlog Contractio 2020 yn yr achos hwn, cyn belled â bod yr un diwydrwydd dyladwy a ddisgwylir mewn unrhyw achos o ddewis cyflenwyr, gan y byddai'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ac yn cefnogi Tirweddau Dynodedig ar draws Cymru. Fodd bynnag, roedd un Aelod o'r farn y dylid dilyn y rheolau caffael.

**PENDERFYNWYD** bod y Rheolau Sefydlog Contractio 2020 yn cael eu hatal mewn perthynas â chomisiynu Archwiliadau Carbon ar gyfer yr wyth o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru.

[Cyflwynodd y Cynghorydd M Evans ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod.]

[Gohiriwyd y cyfarfod am egwyl ginio rhwng 1pm ac 1.30pm.]

**10. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd i'r Awdurdod o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, a chyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer 2020/21 at sylw'r Aelodau.

Croesawodd yr Aelodau yr hyn a ddisgrifiwyd fel adroddiad cadarnhaol a chynhwysfawr, ac mai braf oedd gweld y cynnydd yn nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant yn y Gymraeg. Serch hynny nodwyd bod dal lle i wella. Gofynnwyd i'r swyddogion ystyried cynnwys ychydig o bwyntiau ychwanegol yn yr adroddiad hwn neu adroddiadau yn y dyfodol, ac awgrymwyd y gallai asesiadau effaith, yn enwedig mewn perthynas ag Ardaloedd Sensitif o ran y Gymraeg a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol, gael eu cynnwys o dan adran 3.3 Ymchwil Polisi; hefyd y gallai mwy o hyrwyddo'r gallu i siaradwyr yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu annerch y Pwyllgor yn Gymraeg gael ei gynnwys yn Adran 5 gan mai prin oedd y manylion am y safonau hyrwyddo. Hefyd gellid ychwanegu bod technoleg cyfarfodydd rhithiol yn gyfle i hwyluso cyfieithu ar y pryd. O ran y gostyngiad yn nifer y staff sydd â sgiliau sylfaenol mewn siarad a darllen/ysgrifennu Cymraeg a nodwyd ym mharagraff 4.6.2, dywedwyd bod hyn yn aml yn gwestiwn o ddiffyg hyder, a bod rhai gweithwyr yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Serch hynny, roedd hwn yn faes i'w gadw dan ystyriaeth.

Yn ogystal, nodwyd bod gwall argraffyddol ym mharagraff 1.4 ynglŷn â'r cyfnod sydd wedi'i gwmpasu yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod.

**11. Mabwysiadu'r Achos Busnes dros gael Gweithle Digidol**

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, fis Rhagfyr 2019, wedi derbyn papur oedd yn amlinellu dau opsiwn o ran trwyddedu technoleg gwybodaeth. Un opsiwn oedd symud i drwyddedau Microsoft 365, ar gost flynyddol ddisgwyliedig o rhyw £48K. Yr opsiwn arall oedd aros gyda thrwydded safle Office 2019 ar gost untro o £108K, i gwmpasu'r cyfnod hyd at 2025. Bryd hynny, ystyriwyd nad oedd yr Awdurdod yn debygol o wneud defnydd llawn o swyddogaethau Microsoft 365 ac felly cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhelliad i aros gydag opsiwn Office 2019.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol dros y 15 mis diwethaf, oherwydd y gofyniad i gynnal cyfarfodydd rhithiol a'r cynnydd mewn ffyrdd digidol o weithio. Yn ogystal, roedd heriau cynyddol o ran seiberddiogelwch a newidiadau i rai rhaglenni megis APAS, y system a ddefnyddir gan y tîm Rheoli Datblygu i reoli cymwysiadau, sy'n golygu nad oedd yr Awdurdod yn gallu gwneud defnydd llawn o'r swyddogaethau.

Felly roedd y systemau TG wedi cael eu hail-werthuso, ac roedd adolygiad o addasrwydd Microsoft 365 yn benodol wedi'i amlinellu yn yr adroddiad. Hefyd roedd dadansoddiad diweddar wedi clustnodi bod dau fath o drwydded, yn seiliedig ar y gofynion a'r defnydd a wneir, ac y byddai'r gwahaniaethau sylweddol a wneir o TG gan staff mewn gwahanol rolau yn galluogi'r Awdurdod i leihau'r costau blynyddol am drwyddedau Microsoft 365 i rhyw £25,000 y flwyddyn. Roedd y buddsoddiad gwreiddiol i uwchraddio gweinyddwyr yr Awdurdod hefyd wedi bod o gymorth i ostwng y gost. Byddai symud i Microsoft 365 hefyd yn gweld gostyngiad yn y gost o ddefnyddio systemau eraill, gan arwain at arbedion posibl o rhwng £10,000 a £25,000.

Roedd yr Aelodau yn hapus i gefnogi symud i'r platfform newydd, yn enwedig oherwydd gwell data a diogelwch y system, cyn belled ag y darperir hyfforddiant da i'r swyddogion ac i'r Aelodau. Roedd nifer o'r Aelodau yn cytuno y byddent yn elwa o dderbyn hyfforddiant, ac yn gobeithio y gallai'r hyfforddiant gael ei ddeilwra yn ôl anghenion yr unigolyn.

**PENDERFYNWYD** bod yr Awdurdod yn symud i ddefnyddio Microsoft 365.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2021 heb eu diwygio. |